

Uned 11 ii

Endoparasitiaid

Taflen Wybodaeth

Cyflwyniad

Ceir cryn golledion mewn diadell ddefaid oherwydd pla trwm o barasitiaid. Organeb byw yw parasit sy'n dibynnu ar anifail lletyol am gynhaliaeth.

Mae endoparasitiaid yn byw y tu mewn i'r anifail. Mae'n bwydo oddi ar yr anifail naill ai trwy gymryd maetholion neu waed. Mae'n gallu atal yr anifail rhag amsugno maethynnau.

Y rhai mwyaf cyffredin yw:

- Ostertagia
- Tricostrogylws
- Nematodirws
- Hemoncws
- Ffliwc yr Iau/*Afu/Clefyd yr Euod*
- Llynghyren Ruban
- Cocsidiosis
- Llyngyr yr Ysgyfaint

Parasitiaid Mewnol

Mae sawl math o barasitiaid mewnol:

- A. **Llyngyr** neu **Helminthiaid**
- B. **Protosoaid**

A. Llyngyr

Fel arfer cyfeirir atynt fel Llyngyr Parasitig.

Nodweddion Llyngyr

- Llynghyraidd!
- Byw a bwydo ar organebau lletyol
- Derbyn maeth a diogelwch
- Amharu ar y gallu i amsugno maetholion
- Achosi gwendid a haint
- Mae'r parasitiaid coluddol yn byw yn y llwybr treulio.

Dosberthir **Llyngyr Parasitig** i dri grŵp:

1. **Cestodau** e.e. llyngyr lledog parasitig e.e. llynghyren ruban
2. **Nematodau** neu fe'u gelwir yn **Llyngyr Main** e.e. Ostertagia, Tricostrogylws Nematodirws, Hemoncws
3. **Trematodau** e.e. Ffliwc yr Iau - Fasciola Hepatica

Llyngyr Parasitig

1. Cestodau

Llyngyr Rhuban

Mae'r llyngyr rhuban yn achosi'r bendro mewn defaid a chlefyd hydatid mewn bodau dynol. Y ci defaid yw'r anifail llelyol ar gyfer y ddau afiechyd. Mae'r cŵn yn pasio'r haint i fodau dynol trwy lyfu. Mae'r systiau'n ffurfio mewn unrhyw organ yn cynnwys yr ymennydd a'r iau.

2. Nematodau – cânt eu galw'n Llyngyr Main

Dau grŵp gwahanol:

- a. Cylchred bywyd 1 flwyddyn e.e. Nematodirws
- b. Cylchred bywyd tymhorol e.e. Ostertagia, Tricostrongylws, Hemoncws

a. Nematodirws

- Ymosod ar ŵyn rhwng Ebrill a Mehefin
- Mae'r larfau'n deor o wyau a ollyngwyd gan ŵyn y flwyddyn flaenorol
- Mae gan y cyfnod deori angen oerri, wedyn cynhesrwydd o 10 gradd
- Mae pla trwm yn lladd ŵyn 5 – 10 wythnos oed
- Ysgothi difrifol yn sydyn
- Gwlân yn mynd yn sych
- Bola uwd yn ymddangos
- Colli pwysau
- Marwolaeth
- Y driniaeth yw powdwr llyngyr anthelmintig
- Rhaid osgoi pori ar yr un tir â'r flwyddyn flaenorol
- Rhaid dosio ŵyn sy'n dueddol i gael clefyd yn 4-6 wythnos oed.

b. Ostertagia, Tricostrongylws a Hemoncws

- Larfâu'n byw dros y gaeaf
- Yn deor a'u pori gan ŵyn
- Dim imiwneidd gan ŵyn
- Larfâu'n deor y tu mewn i'r ŵyn ac yn cynhyrchu wyau
- Wyau'n pasio allan
- Ymwrthedd mamog yn isel cyn ŵyna
- Larfâu atalgar yn y coluddyn yn datblygu'n llyngyr llawn dwf
- Parasit yn cael ei ysgarthu e.e. tua thair wythnos cyn ŵyna
- Cynhyrchu wyau'n parhau i fyny hyd at 6 wythnos ar ôl yr ŵyna
- Wyau'n syrthio i'r borfa, datblygu yn llyngyr anaeddfed sy'n heintio'r borfa
- Datblygu'n llawn dwf ac mae'r cylchred bywyd yn gyflawn
- Tymheredd yn rheoli cyflymder datblygu wyau
- Ysgothi difrifol iawn
- Gall marwolaeth ddigwydd
- Rhaid trin â phowdwr llyngyr a rheoli drwy bori cylchdro.

Mae'r Llyngyr Parasitig yn achosi cyflwr a elwir yn Gastro-enteritis Parasitig (PGE).

3. Trematodau

Ffliwc yr Iau/Afu/Clefyd yr Euod

- Achosir gan llyngyr siâp deilen a elwir yn *Fasciola Hepatica*
- Mae llyngyr yr iau angen malwod mwd i gwblhau eu cylchred bywyd
- Yn gysylltiedig â thir gwlyb neu â draeniad gwael
- Mae ffliwc yr iau llawn dwf yn byw yn yr iau
- Bwydo ar waed
- Dodwy nifer fawr o wyau sy'n pasio yn yr ysgarthiad i'r borfa
- Amodau llaith, cynnes yn achosi'r wyau i ddeor i larfau heintus
- Nofio mewn mannau mwdlyd
- Canfod a threiddio i falwoden mwd bychan - *Lymnae spp*
- Larfâu'n datblygu a lluosu yn y falwoden
- Ymhen 5-10 wythnos, nifer fawr o llyngyr yr iau'n cael eu rhyddhau o'r falwoden heintus, ac yn glynu wrth y borfa
- Gallu goroesi am fisoedd lawer
- Ar ôl cael eu codi gan anifail, mae llyngyr yr iau ifanc yn tyrchu drwy wal y perfedd i'r iau lle maen nhw'n aeddfedu
- Mae llyngyr yr iau llawn dwf yn dodwy wyau sy'n cael eu pasio'n ôl i'r borfa
- Colli graen yn raddol
- Defaid yn gallu marw'n sydyn
- Anemia
- Trin â phowdwr lladd llyngyr yr iau.

Llyngyr eraill

Llyngyr yr Ysgyfaint

Mae llyngyr yr Ysgyfaint (neu Hach neu Froncitis Parasitig) yn glefyd sy'n cael ei achosi gan llyngyr parasitig sy'n byw mewn anifeiliaid wedi eu heintio, yn y llwybr resbiradu.

Mae llyngyr yr ysgyfaint mewn gwartheg yn gallu cychwyn clefyd difrifol mewn gwartheg ifanc sy'n pori yn ystod eu haf cyntaf.

Mae arwyddion o'r clefyd yn cynnwys peswch a diffyg anadl, a gall rhai anifeiliaid heintus farw. Mae anifeiliaid sydd wedi gwella fel arfer ag imiwnedd i glefyd pellach, ond gallant roi'r haint i anifeiliaid eraill. Gellir cael imiwnedd trwy frechlyn drwy'r geg.

B. Protosoa

Coccidiosis

- Achosir gan brotosoad bychan
- Achosi ysgothi du helaeth mewn ŵyn
- Agoswydd dan do'n help i ymledu'r clefyd
- Eu lladd gan coccidiostat
- Brechlyn ar gael i atal haint.